Grŵp Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus
Cross-party Group on Problem Gambling

Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus gynhaliwyd ar 2ail Hydref 2018 yn
Stafell Gynhadledd Fideo, Llawr 1af Floor, Tŷ Hywel, rhwng 12.30 a13.20

Presennol	Roedd yr Aelodau Cynulliad canlynol yn bresennol: Mick Antoniw (Cadeirydd y Grwp Trawsbleidiol), Dr Dai Lloyd a John Griffiths. Yn ogystal, roedd y canlynol hefyd yn bresynnol: Sarah Grant, Dee Lally-Osborne (LRC), Yr Athro Bev John, Dr Gareth Roderique-Davies (USW), Oliver John, Dr Ranjini R Rao (Coleg Brenhinol Seiciatryddol Cymru), Clive Wolfendale (CAIS Cyf), a Wynford Ellis Owen.
Ymddiheuriadau	Dim

Eitem	Gweithgarwch
1	Croesawodd Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Grŵp trawsbleidiol, bawb - a dymunodd yn dda i'r cynrychiolwyr o Brifysgol Caerdydd gan fod eu gwaith ymchwil ar gamblo problemus yn cael ei ystyried ar gyfer UCW Impact Award sydd yn dathlu ymchwil sy'n cael ei weld yn gwneud gwahaniaeth. Yn ogystal, diolchodd i Clive Wolfendale, Prif Weithredwr CAIS Cyf, am deithio mor bell i gyflwyno ei adroddiad i'r Grwp. Cyflwynodd Mick Antoniw AC Sarah Grant, i siarad am ei phrofiadau fel gamblwr problemus a'r heriau o ganfod triniaeth fel merch. **Tystiolaeth Sarah Grant - Gamblwr problemus mewn adferiad** Cyflwynodd Sarah sawl mewnwelediad i'w dibyniaeth ar gamblo a'i wreiddiau yng ngoleuadau llachar, croesawgar y peiriannau ffrwythau mewn tafarndai yn ystod ei phlentyndod. Adroddodd am sawl trawma ddigwyddodd iddi a'i thuedd cynyddol i ddianc rhagddynt drwy gamblo. Roedd anghydraddoldeb rhwng dynion a merched hefyd - yn arbennig mewn triniaeth a delio'n gyffredinol gyda'r broblem. Siaradodd am gylch o anobaith a methiant asiantaethau i gydweithio a chynnig yr help roedd ei angen. Diolchodd Mick Antoniw AC i Sarah am ei chyflwyniad ac am ei dewrder yn siarad mor agored am ei phroblemau gyda gamblo. Yna, cyflwynodd Clive Wolfendale, Prif Weithredwr CAIS Cyf, i siarad am y sialensiau a'r heriau o gynnig triniaeth ac ôl-ofal i gamblwyr problemus a'u teuluoedd yng Nghymru. **Tystiolaeth gan Clive Wolfendale -** Prif Weithredwr CAIS Cyf, elusen gofrestredig ac arweinydd yn y sector gwirfoddol sy'n cynnig gwasanaethau cefnogaeth bersonol yng Nghymru.

Grŵp Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus
Cross-party Group on Problem Gambling

Cyflwynodd Clive wybodaeth am ddifrifoldeb gamblo problemus yng Nghymru a'i ganlyniadau:

1. **1.1% o boblogaeth Cymru yn gamblwyr problemus - ac am bob un gamblwr problemus mae ymchwil yn amcangyfrif bod saith arall yn cael eu heffeithio'n negyddol.**

2. **Mae cymaint â 96% o unigolion sy'n gamblwyr problemus yn cyfarfod y criteria bod ganddynt un salwch seiciatryddol hir dymor arall.**

3. **38% o gamblwyr problemus yn cyfaddef bod ganddynt broblem gydag ymosodiadau treisgar tuag at bartneriaid agos.**

4. **56% o gamblwyr problemus yn adrodd iddynt fod yn dreisgar tuag at eu plant.**

5. **Cyfanswm cynnyrch y diwydiant Gamblo ym Mhrydain Fawr (GGY) yw £13.8 Biliwn.**

Siaradodd Clive am fenter Curo'r Bwci Stafell Fyw Caerdydd i helpu gamblwyr problemus a'u teuluoedd, y gwnaeth CAIS Cyf, fel y rhiant gwmni, ei ariannu gyda buddsoddiad o £40K 5 mlynedd yn ôl.. Amlinellodd ei ddatblygiad, y gwaith ymchwil wnaed, y partneru gyda Responsible Gambling Foundation yn Melbourne, Awstralia, a'r 4air cynhadledd lwyddiannus ar Gamblo Eithafol gynhaliwyd. Adlewyrchodd yn gadarnhaol ar y gynhadledd ddiweddaraf, ond galwodd ar eraill i wneud cyfraniadau ystyriol (ar wahân i fynych) i unrhyw gynhadledd i'r dyfodol. Adlewyrchodd hefyd ar gyn lleied o wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth a help yng Nghymru I gamblwyr problemus a'u teuluoedd, a lleisiodd ei siom eithriadol ar yr oedi i gyflwyno deddf i gyfyngu ar niwed y peiriannau gamblo electronig (FOBT).

Roedd 6 prif gasgliad i'w gyflwyniad:

1. **Cydnabyddiaeth o beth mae'r gwaith ymchwil eisoes yn dweud wrthym - a'r angen i weithredu a pheidio gohirio delio gyda'r gamblo problemus yng Nghymru**

2. **Cydnabyddiaeth fod Gamblo Problemus yn broblem Iechyd Cyhoeddus erbyn hyn yng Nghymru**

3. **Yr angen i gyfyngu ar hysbysebion gamblo a mynediad iddynt**

4. **Cynyddu'r lefi ar y diwydiant sy'n gymesur â'r niwed achosir**

5. **Gweinyddiaeth o'r gwasanaethau triniaeth sy'n annibynnol o'r diwydiant**

6. **Yr angen am wasanaethau effeithiol oddi fewn i Gymru.**

Grŵp Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus
Cross-party Group on Problem Gambling

Diolchodd Mick Antoniw AC i Clive am ei gyflwyniad a chynhaliwyd sesiwn byr o holi ac ateb

Rhai o'r materion a godwyd oedd: prinder help a chefnogaeth mewn carchardai; yr angen am integreiddio'r gwasanaethau mewn perthynas â salwch meddwl a gamblo problemus; a'r cysylltiad rhwng chwaraeon a gamblo.

Yna, cyflwynodd Mick Antoniw AC Oliver John a Dr Ranjini R Rao o Goleg Brenhinol Seiciatryddol Cymru. Mae Dr Ranjini Rao yn ymgynghorydd seiciatryddol mewn dibyniaethau; yn gyfarwyddwr hyfforddiant yn Neoniaeth Cymru a Chadeirydd adran dibyniaethau'r coleg yng Nghymru. Bydd Dr Ranjini yn aelod gwerthfawr i'r grŵp trawsbleidiol a bydd yn cyflwyno mwy o wybodaeth yn y man ar sut mae cydweithredu'n fwy effeithiol.

Trafododd Mick Antoniw AC flaenoriaethau'r Grŵp Trawsbleidiol i'r dyfodol:

Rhestrodd hwynt yn ôl eu pwysigrwydd i'r Grŵp:

1. Mae siarad am grŵp "task and finish" oddi fewn i Lywodraeth Cymru i weithredu ar awgrymiadau a chymhellion adroddiad ardderchog y Prif Swyddog Meddygol (CMO) y llynedd. Mater priodol i Lywodraeth Cymru yw hon wrth gwrs, ond mae Mick Antoniw AC wedi gwahodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, I adrodd i'r Grŵp Trawsbleidiol fel y gallwn ddatblygu strategaeth unedig. Nid yw eto wedi ateb

2. Deallwn hefyd bod dirprwy brif Weithredwr GambleAware yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Cynghori Cymreig ar Gamblo. Bwriad y panel hwn yw cynghori ymddiriedolwyr GambleAware ar weithgarwch yr elusen yng Nghymru. Mae Iain Corby, dirprwy Brif Weithredwr GambleAware wedi cytuno i wneud cyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol fel y gallwn ddeall mwy am y Bwrdd Cynghori hwn ac am gynlluniau GambleAware yng Nghymru.

3. Mae Tim Miller, Cyfarwyddwr Gweithredol y Comisiwn Gamblo wedi cytuno i wneud cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar 20fed o Dachwedd. Caiff y digwyddiad hwn ei ohirio os fydd 1 neu 2 uchod yn gallu mynychu'r cyfarfod hwnnw yn ei le.

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd: 20fed TACHWEDD 2018 yn Stafell Gynadledda B rhwng 12.30 a 13.30

.

Grŵp Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus
Cross-party Group on Problem Gambling

Chairman…….

Date……..